

Gallaf ysgrifennu adroddiadau ar gyfer ...

Hanes: pob peth am bobl, llefydd a digwyddiadau cyfnod



Gwyddoniaeth: pob peth am anifeiliaid; planhigion; y planedau; deunyddiau

Daearyddiaeth: am lefydd; mynyddoedd; afonydd; fy ardal; ardal wrthgyferbyniol; rhanbarthau hinsoddol; pamffled gwyliau



Addysg Grefyddol: canllaw ar gyfer gwahanol ffydd, gwyliau a thraddodiadau



Dylunio a Thechnoleg: adroddiad ar ryw gynnyrch yr ydych wedi ei gynllunio

Pob peth am hobi neu chwaraeon
Cerddoriaeth: Pob peth am offer cerddorol



Sut i gyflwyno 'Adroddiadau'

- Pamffled tebyg i hwn!
- Poster
- Llyfr igam-ogam
- Llyfryn
- Llyfr dosbarth mawr
- Defnyddio TGCh i gyhoeddi
- Cyflwyniad 'Powerpoint'
- Testun amlfodd e.e. diagram corryn, cymylau, blychau
- Fel tudalen o lyfr Gwyddoniadur
- Ffilm - fel ar y teledu



Rhestr wirio 'Ysgrifennu Adroddiad'

Wnes i gofio ...?	
Cyflwyniad	😊
Iaith i ddisgrifio fy mhwnc	😊
Geiriau technegol	😊
Paragraffau	😊
Is-benawdau gafaelfgar	😊
Siartiau, diagramau a lluniau	😊
Brawddegau cysylltiedig	😊
Trydydd person	😊
Datganiad sy'n crynhoi	😊

Addasiad o bamffled Tîm Llythrennedd Swydd Gaerhirfryn

Pob dim am
Adroddiadau
Anghronolegol a
Thestunau
Gwybodaeth



Beth yw prwpas adroddiad?

I ddweud pob dim am eich testun wrth y darllenwr

Byddant eisiau gwybod:

- Pryd y digwyddodd
- Sut mae /oedd e'n edrych
- O beth caiff ei wneud
- Os yn fyw, ble mae'n byw, beth mae'n ei fwyta, ei arferion


I bwy mae'r adroddiad?

Ydych chi'n ysgrifennu ar gyfer rhywun sy'n iau na chi, neu'r un oed?

Sut y bydd hyn yn effeithio ar y ffordd y byddwch yn ysgrifennu a chyflwyno'r adroddiad?

Yr iaith i'w defnyddio

- Amser presennol neu'r gorffennol os yw'n adroddiad hanesyddol.
- Y trydydd person - er, weithiau, mae'n effeithiol i gyfeirio at y darllenwr - yr ail berson, chi.
- Iaith dechnegol sy'n gysylltiedig â'ch testun - fe allech chi ychwanegu rhestr termau i'ch adroddiad



Cliwiau i'r clyfar!

- Ceisiwch feddwl am is-benawdau gafaelgar. Gofynnwch gwestiwn; defnyddiwch fwysair (pun); ceisiwch odl neu gyflythreniad e.e. *Crafangau cas; Odl Dod!!*
- Defnyddiwch ddiagramau wedi'u labelu i gyflwyno gwybodaeth yn syml ac yn glir
- Cynhwyswch ffeil o ffeithiau ar gyfer yr holl ffeithiau diddorol nad ydynt yn gymwys i lefydd eraill
- Cynlluniwch gan ddefnyddio diagram corryn neu restru o dan is-benawdau
- Casglwch wybodaeth o gymaint o ffynonellau ag sy'n bosib—defnyddiwch nodiadau gludiog i gofnodi'r hyn wnaethoch ddarganfod. Gallwch ail-drefnu'r nodiadau gludiog i osod y wybodaeth yn y drefn orau
- Ychwanegwch sylwadau fel petaech chi'n siarad â'r darllenwr e.e. *Enamel yw'r defnydd caletaf yn dy gorff.*
- Defnyddiwch amrywiaeth o frawddegau i gyflwyno eich gwybodaeth - rhai syml, trawiadol e.e. *Yr Antarctig yw'r lle oeraf yn y byd.; a rhai mwy cymhleth â manylder.*

Strwythur a threfniant

- Dechreuwch gyda chyflwyniad. Dywedwch am beth yr ydych yn ysgrifennu. Rhwch drosolwg cyffredinol o'r pwnc. Cadwch y manylion tan yn hwyrach.
- Nid yw adroddiadau anghronolegol yn cael eu hysgrifennu yn nhrefn amser.
- Defnyddiwch is-benawdau i ddweud wrth y darllenwr beth sydd yn y rhan nesaf.
- Cysylltwch y brawddegau â'i gilydd. Ysgrifennwch frawddeg am y testun. Rhwch fwy o fanylion yn y frawddeg nesaf.
- Gorffennwch â datganiad sy'n crynhoi.

